Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd – Strategaeth a Ffefrir

Crynodeb cyflym

Mabwysiadodd y Cyngor Gynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd at 2021 (Cynllun Datblygu Lleol wedi'i fabwysiadu) ym mis Tachwedd 2010. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol wedi'i fabwysiadu yn nodi cynigion a pholisïau'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn y dyfodol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili.

Mae gwaith wedi dechrau ar Ail Gynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Caerffili, 2020 hyd at 2035 a fydd, ar ôl ei gwblhau, yn disodli'r Cynllun Datblygu Lleoll wedi'i fabwysiadu.

Ymgynghorodd y Cyngor ar ei Gynllun Cyn Adneuo cyntaf ar gyfer yr Ail Gynllun Datblygu Lleol ym mis Hydref a mis Tachwedd 2022. Cafodd gwaith ei ohirio ar yr Ail Gynllun Datblygu Lleol yn dilyn gwrthwynebiadau o ran cydymffurfio gan Lywodraeth Cymru, cyn bod modd eu goresgyn nhw.

Mae'r Cyngor bellach wedi llunio Cynllun Cyn Adneuo diwygiedig, ac mae hwn yn destun cyfnod ymgynghori 6 wythnos a ddechreuodd ar 15 Ionawr 2025 ac sy'n dod i ben ar 26 Chwefror 2025. Mae modd archwilio'r Cynllun Cyn Adneuo, ynghyd â'r dogfennau ategol a thystiolaeth, trwy wefan y Cyngor. Yma, gallwch chi gyflwyno sylwadau'n ffurfiol i'r Cyngor.

Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn:

1. Dangos faint o dir y bydd angen ei ddyrannu hyd at 2035 i fodloni gofynion y Fwrdeistref Sirol. Yn benodol, mae'n amlygu'r angen am y canlynol:
    a) Tir ar gyfer o leiaf 7,425 o anheddau newydd, y bydd angen i gyfran ohonyn nhw fod yn fforddiadwy;
    b) 44.5 hectar o dir ar gyfer cyflogaeth i ddiwallu anghenion busnes;
    c) Tir ar gyfer seilwaith cymdeithasol newydd (ysgolion, hamdden, cyfleusterau cymunedol, darpariaeth iechyd ac ati);
2. Nodi hierarchaeth ar gyfer aneddiadau, canolfannau manwerthu a masnachol, a ffyrdd;
3. Ceisio diogelu, cadw, gwella a rheoli'r dreftadaeth naturiol ac adeiledig;
4. Amlinellu'r dull arfaethedig o ddarparu ynni adnewyddadwy (gwynt), rheoli gwastraff; a diogelu mwynau.

Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn nodi 2 biler a fydd yn cael eu defnyddio i gyfeirio datblygiad i ardaloedd priodol yn y Fwrdeistref Sirol:

1. Canol Tref yn Gyntaf: sy'n ceisio canolbwyntio datblygiadau newydd ar y prif aneddiadau a'r aneddiadau lleol cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol; a
2. Ffocws Buddsoddi mewn Metro: sy'n ceisio canolbwyntio datblygiadau yn agos at y prif ddulliau teithio er mwyn hwyluso teithio cynaliadwy a newid moddol.

Mae arwydd o wasgaru twf o hierarchaeth aneddiadau ac Ardaloedd Prif Gynllun wedi'i nodi isod. Dylai gael ei nodi mai dangosol yn unig yw hyn ar hyn o bryd gan nad yw safleoedd yn cael eu ffurfioli nac yn cael eu hadnabod yn y Strategaeth a Ffefrir. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd y canrannau isod yn newid yng nghamau dilynol yr Ail Gynllun Datblygu Lleol.

Twf yn ôl Haen Hierarchaeth Aneddiadau

Haen Hierarchaeth Aneddiadau	Canran y Twf Tai	Canran yr holl Dwf Cyflogaeth
Prif Aneddiadau	36.4%	27.6%
Aneddiadau Lleol	12.1%	18.0%
Aneddiadau preswyl sy'n addas ar gyfer twf	50.0%	54.4%
Aneddiadau preswyl nad ydyn nhw'n addas ar gyfer twf	1.5%	0%
Aneddiadau Gwledig	0.0%	0%

Twf yn ôl Ardal yr Uwchgynllun

Ardal yr Uwchgynllun	Canran y Twf Tai	Canran yr holl Dwf Cyflogaeth
Basn Caerffili	25.4%	16.5%
Ystrad Mynach	20.4%	17.5%
Cymoedd Ebwy Isaf a Sirhywi	10.4%	0%
Coed Duon Fwyaf	32.7%	54.4%
Blaenau'r Cymoedd	11.2%	11.6%

Sut i weld y cynllun a gwneud sylwadau

Byddem ni'n croesawu eich barn ar y Strategaeth a Ffefrir.

Am ragor o wybodaeth ac i wneud sylwadau ar-lein, ewch i

SCAN ME

https://www.caerffili.gov.uk/business/planning-and-building-control-for-business/local-development-plan/2nd-replacement-ldp-up-to-2035/pre-deposit-public-consultation?lang=cy-gb

Bydd angen i'r sylwadau gyrraedd y tîm Cynllunio Strategol yn ysgrifenedig erbyn hanner nos, **nos Fercher 26 Chwefror 2025**. Ni fydd sylwadau sy'n dod i law ar ôl y cyfnod hwn yn cael eu hystyried.

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch chi, neu os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Thîm y Cynllun Datblygu Lleol:

E-bost: **CynllunDatblyguLleol@caerffili.gov.uk** Ffôn: **01443 866777**